Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Julie James AC / AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-KS-4576-17

Russell George AC
Cadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Ionawr 2018

Annwyl Russell,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei adroddiad ar Graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2018-19 ac rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r argymhellion sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau ein portffolio. Rydym yn amgáu'r ymateb llawn gyda'r llythyr hwn.

Rydym yn sylweddoli, oherwydd amgylchiadau eithriadol, bod y Pwyllgor wedi cytuno i graffu ar feysydd cyllideb yr Economi a Thrafnidiaeth yn ysgrifenedig a'n bod yn croesawu gwahoddiad y Pwyllgor i fynd i sesiynau craffu ariannol yn y dyfodol.

Eto, rydym yn diolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad defnyddiol hwn ac am barhau i graffu ar y cyllidebau.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Ysgrifenedig gan Bwyllgor yr Economi a Thrafnidiaeth i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2018-19

18 Rhagfyr 2017

Nodir Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1: Gwyddoniaeth, Arloesi a Gwyddorau Bywyd

Mae'r Pwyllgor yn teimlo'n gryf, os yw cyllid cyfalaf ar gael - fel a nodwyd gan y Gweinidog - i fuddsoddi mewn canolfannau arloesi dylai gael ei gadw a bod yn weledol yn y gyllideb - gan ganiatáu i'r llywodraeth fod yn broactif wrth chwilio am bartneriaid buddsoddi, yn hytrach nag ymateb i geisiadau a allai ddod i mewn.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddenu canolfannau arloesi newydd, o dan arweiniad y diwydiant yng Nghymru er mwyn creu gwaith o werth uchel a sicrhau bod Cymru yn chwarae rhan amlwg wrth ddarparu Strategaeth Ddiwydiannol newydd y DU a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru. Mae cyfleoedd i ddatblygu canolfannau arloesi yn codi gydag amrywiol amserlenni ac amgylchiadau. Y ffordd fwyaf effeithiol i'r Llywodraeth ymateb yw i gael ymrwymiad gan Weinidog i nodi cymorth ariannol ar gyfer ceisiadau o safon uchel, wedi'i gysylltu'n agos â blaenoriaethau datblygu economaidd.

Caiff pob cais am gymorth busnes ei asesu yn erbyn y blaenoriaethau, gan ganolbwyntio ar werth am arian a blaenoriaethu cyllidebau i'w gwneud yn gydnaws â'r hyn sydd angen ei gyflawni. Caiff cyllidebau eu monitro'n glos i asesu buddsoddiadau ac effaith economaidd yn barhaus ac yn cael eu hail-flaenoriaethu fel y bo angen i sicrhau bod cymaint o wariant cyfalaf â phosib. Yn y ffordd yma caiff cyllidebau eu rheoli i barhau i ymateb i gyfleoedd ar gyfer buddsoddi mewn arloesi, sydd ag amserlenni hwy yn aml i'w datblygu.

Goblygiadau ariannol:

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ymateb i'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2: Defnyddio y Seilwaith Digidol

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ragor o fanylion am strategaeth Llywodraeth Cymru i ddefnyddio y seilwaith digidol newydd y mae'n helpu ei sefydlu, yn enwedig mewn perthynas â sut y caiff ei safbwyntiau eu defnyddio i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus a'r economi.

Ymateb: Derbyn

Caiff y seilwaith digidol ei ddefnyddio o dan raglen Cyflymu Cymru ac mae'n bosibl i Lywodraeth Cymru drawsnewid yr economi a'r sector cyhoeddus yn gyfangwbl. Bydd yn helpu i greu amgylchedd a fydd yn cefnogi busnesau presennol ac yn denu cwmnïau sydd yn tyfu'n gyflym ac sydd o werth uchel i Gymru. Bydd y prosiect yn trawsnewid y cyd-destun band eang ledled Cymru ac yn galluogi busnesau lleol i gystadlu ar lefel fyd-eang.

Mae band eang cyflym iawn yn ei gwneud yn bosibl i fusnesau gael eu lleoli unrhyw le. Gall wella cyfleoedd ar gyfer creadigrwydd a entrepreneuriaeth ym myd busnes yn

enwedig ar gyfer busnesau bach a micro. Mae'n caniatáu i fusnesau fod yn arloesol, agor marchnadoedd newydd a chynyddu eu gwerthiant. Mae ganddo'r gallu i wella'r gadwyn gyflenwi, drwy rannau data yn effeithiol ac ati. Bydd hefyd yn galluogi busnesau i ddefnyddio technolegau newydd megis cyfrifiadura cwmwl a dulliau gwell o gydlafurio a chymwysiadau sy'n cael eu cynnal.

Mae rhoi'r gallu i bobl ddefnyddio band eang cyflym iawn yn golygu y gallant ddefnyddio gwasanaethau y llywodraeth y maent eu hangen yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae bod ar-lein yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes, gwell lefelau o lythrennedd digidol ac yn caniatáu i bobl chwilio am gyfleoedd am swyddi a gwneud cais ar eu cyfer.

Mae seilwaith digidol hefyd yn caniatáu manteision economaidd ehangach. Mae bod ar-lein a gallu defnyddio technoleg yn caniatáu i bobl gadw mewn cysylltiad ac yn lleihau teimladau o fod wedi eu hynysu a theimladau o unigrwydd, er enghraifft trwy ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol cymunedol ar-lein, neu gyfathrebu gyda teulu a ffrindiau dramor.

Trwy ein rhaglen pum mlynedd, gwerth £12.5miliwn i sicrhau bod busnesau ledled Cymru yn manteisio i'r eithaf ar fand eang cyflym iawn, rydym yn cefnogi busnesau bach a chanolig yn bennaf i ddeall, mabwysiadu a defnyddio y seilwaith cyflym iawn sy'n cael ei greu ledled Cymru, fel rhan o brosiect Cyflymu Cymru a'r cynlluniau masnachol gan y cwmnïau telegyfathrebu. Mae'r rhaglen yn rhedeg o fis Rhagfyr 2015 tan Ragfyr 2020 ac mae'n cynnwys cyllid gan yr UE.

Mae'r rhwydwaith PSBA yn cysylltu bron pob maes o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau rhwydwaith digidol. Mae PSBA yn cefnogi partneriaeth o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru drwy gynnig dull o gyfuno y galw am wasanaethau rhwydweithio dros ardal eang, a'u prynu ar y cyd. Mae'r bartneriaeth yn gosod y sylfeini ar gyfer integreiddio llawer mwy clos rhwng gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cyflawni arbedion na allai pob partner eu sicrhau ar eu pennau eu hunain. Mae'r prosiect yn cysylltu dros 100 o sefydliadau ar draws 4,500 o safleoedd. Mae PSBA yn creu platfform soled ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y rheng flaen megis ysgolion a'r GPS i brofi, cyflwyno a normaleiddio gwasanaeth digidol newydd.

Goblygiadau ariannol:

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ymateb i'r argymhelliad hwn. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.